2022
# Adroddiad Blynyddol

wsa
Welsh Sports Association
Cymdeithas Chwaraeon Cymru



# Rhagair y Cadeirydd



## Unwaith yn rhagor, rwy'n falch o gyflwyno adroddiad blynyddol WSA sy'n tynnu sylw at gymaint o flwyddyn lwyddiannus rydym wedi'i chael fel sefydliad yn wyneb heriau parhaus i'n sector.

**Fel bwrdd rydym yn falch iawn o fod wedi gallu cefnogi ein haelodau mewn amrywiaeth helaeth o ffyrdd drwy ydol y flwyddyn, yn ogystal â lansio gwasanaethau a chynhyrchion newydd. Bydd y gwasanaethau Aelodaeth a Mwy newydd y mae WSA yn eu cynnig yn galluogi'n haelodau i arbed arian a chanolbwyntio ar ddarparu chwaraeon mewn cymunedau ledled Cymru.**

Rwyf am estyn fy niolch i staff WSA am eu hymrwymiad parhaus gydol y flwyddyn - maent wedi dangos gwytnwch mawr yn wyneb cyfnod o her a newid sylweddol. Wrth gwrs, rhaid diolch i'n Prif Weithredwr sy'n gadael, Victoria Ward am ei gwasanaeth hir i WSA a'i chyfraniad enfawr i ddatblygu'r sefydliad i'r man lle'r ydym ni heddiw. Mae'n anodd crisialu maint ei chyfraniad mewn geiriau yn ystod fy nghyfnod fel Aelod a Chadeirydd ar y Bwrdd.

Gyda hynny, rydym hefyd yn croesawu Andrew Howard fel ein Prif Weithredwr newydd. Mae Andrew yn ymuno â ni o yrfa yng Nghymdeithas Bêl-droed Cymru ond hefyd mae ganddo brofiad gydag un o'n haelodau lleiaf sef Pétanque Cymru. Mae Andrew yn ymuno mewn cyfnod cyffrous i WSA wrth i ni ganolbwyntio ar gynnig ystod o wasanaethau newydd a chyffrous i'n haelodau ac edrychwn ymlaen at weithio gydag ef.

Rydym yn dod allan o'r pandemig i dirwedd sy'n parhau i fod yn heriol - gyda chostau byw cynyddol mae ein sector yn wynebu her ddeuol. Mae costau cyflenwi yn cynyddu, tra bod ein cwsmeriaid yn gweld gostyngiadau gwirioneddol yn yr incwm sydd ganddynt i'w wario ar ein gwasanaethau. Bydd angen i ni weithio'n hynod galed i ddiogelu ein sector a sicrhau nad yw'r bylchau o ran cyfranogiad, y llwyddon ni i'w cadw dan reolaeth yn ystod y pandemig, yn tyfu.

Bydd gwneud hynny yn ein helpu ni oll i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru ac uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru iachach. Gyda lansio'r cwricwlwm newydd, mae cyfleoedd enfawr i'r sector, ac rydym am weithio gyda'n haelodau i sicrhau eu bod mewn lle da i wneud y gorau o hyn. Gallai'r ymrwymiad i agor adeiladau ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol a chreu ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned olygu manteision enfawr os yw'n cael ei wneud yn briodol.

Diolch i'n holl aelodau a phartneriaid am eich cefnogaeth barhaus gydol y flwyddyn, a diolch ymhellach i Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru, ac eraill am ymgysylltu adeiladol dros y flwyddyn flaenorol ac i'r dyfodol.

Rydym yn hyderus bod WSA ar seiliau cadarn i gefnogi ein haelodau i'r dyfodol, ac yn gobeithio y bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn dangos hynny.



**Lynn Pamment**
Chair

# Ffarwelio â Vicky



**Bu Victoria Ward yn gyfrifol am lywio WSA drwy gyfnod enfawr o dwf. Yn ystod ei chyfnod fel Prif Weithredwr WSA gwelsom dwf sylweddol o ran niferoedd staff, trosiant a llai o ddibyniaeth ar incwm grant wrth i'n cynnig masnachol dyfu.**

Roedd Vicky yn llais allweddol i'r sector yn ystod y cyfnod anoddaf mae chwaraeon wedi ei wynebu o fewn cof diweddar yn ystod y pandemig. Gan weithio'n agos gydag aelodau, ein tîm staff a phartneriaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, helpodd Vicky i arwain y sector i allu adfer a dychwelyd i weithgarwch yn ddiogel a chyflym wrth i dirwedd iechyd y cyhoedd newid.

Y tu hwnt i hyn, mae Vicky hefyd wedi bod yn eiriolwr cryf dros chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac wedi gweithio'n gyson i wella ein sector. Boed hynny fel cyfaill ymddiriedgar a beirniadol i'n haelodau a'n partneriaid, neu fel ffigwr allweddol o ran darparu ein gwasanaethau rhagorol.

# Neges gan y Prif Swyddog Gweithredol



**Rwy wrth fy modd i gael bod yn Brif Swyddog Gweithredol newydd i Gymdeithas Chwaraeon Cymru, ac yn fy amser byr wrth y llyw hyd yn hyn, mae wedi bod yn bleser mawr gallu cyfarfod â chymaint o arweinwyr rhagorol o blith ein Haelodau sydd wedi ymrwymo i yrru ein sector chwaraeon a hamdden yn ei flaen yng Nghymru.**

Yn ddiweddar rydym wedi lansio ein Strategaeth newydd, Sefydlu Chwaraeon ar gyfer Llwyddiant ac ynghyd â'n tîm gweithgar a thalentog, byddwn yn ei chyflawni ar gyfer ein Haelodau dros y blynyddoedd nesaf. Mae gennym dri philer strategol sy'n greiddiol i bopeth a wnawn... Cydweithio, Datblygu a Hyrwyddo. Mae'r eiriolaeth a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i'n haelodaeth gynyddol ar draws y sector Chwaraeon a Hamdden yn ein gwneud yn unigryw yng Nghymru a byddwn yn parhau i weithio'n arloesol, yn gynhwysol, ac yn gynaliadwy.

Fel partneriaid i Chwaraeon Cymru, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Farwnes Grey-Thompson, Brian Davies a'u tîm fel cydweithwyr hanfodol i gynorthwyo Chwaraeon Cymru i gyflawni llythyr cylch gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.

Mae'r sector yn dal i adfer ar ôl y pandemig, ac eto mae heriau newydd ac arwyddocaol o'n blaenau gyda'r argyfwng costau byw, costau ynni uwch a gostyngiad mewn incwm gwario i gyd yn bryderon gwirioneddol i'n haelodau.  Rydym wedi ymateb i hyn eisoes gyda lansiad ein gwasanaeth caffael er mwyn helpu i leihau costau ac mae lansio ein cynlluniau Aelodaeth a Mwy WSA yn enghraifft arall o sut y gall gwasanaethau a rennir helpu i yrru arbedion. Mae WSA a'i aelodau wedi dangos cryfder ar y cyd yn y gorffennol wrth wynebu anawsterau, a gyda'n gilydd, fe wnawn ni hynny eto.

**Andrew Howard**
WSA CEO

# Sefydlu Chwaraeon ar gyfer Llwyddiant

## Ein Gweledigaeth

“Cenedl Fywiog, Egnïol”

## Ein Cenhadaeth

“Grymuso ein haelodau i fod yn gryfach ac yn fwy llwyddiannus, gan gyfrannu tuag at gymdeithas sy’n ffit i’r dyfodol”

## Sut byddwn ni’n cyflawni hyn?

**Arwain Eiriolaeth**
Llais annibynnol, ar y cyd

**Datblygu Gwytnwch**
Cynaliadwyedd ariannol a sefydliadol, cefnogaeth, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol



# Ydyn ni'n llwyddo?



*"Mae Gwasanaeth Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn well nawr na chyn y pandemig a gall WSA dderbyn rhywfaint o glod am hynny yn seiliedig ar y gefnogaeth maen nhw wedi'i roi i mi a gweddill y sector chwaraeon a hamdden dros y ddwy flynedd ddiwethaf.*

*"Mae WSA yn rhan annatod o ddatblygiad chwaraeon a hamdden yng Nghymru; gall yr hyn maen nhw'n ei gynnig, sut maen nhw'n ei ddarparu a phroffesiynoldeb y tîm ond helpu sefydliadau fel awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol a darparwyr chwaraeon a hamdden eraill."*

**Mally Tidswell**
Prif Reolwr Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Mae'r 6 ystadegyn teimlad o'r Adroddiad Canfyddiad Blynyddol wedi'u cynnwys isod:

| | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Cyfanswm teimladau cadarnhaol |
|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn argymell WSA fel sefydliad gwych i weithio gyda nhw | 91% | 9% | 0% | **91%** |
| Mae WSA yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel | 100% | 0% | 0% | **100%** |
| Mae WSA yn rhoi gwybod i'm sefydliad am ei weithgareddau | 100% | 0% | 0% | **100%** |
| Mae WSA yn cyfathrebu'n dda gyda sefydliadau fel fy un i | 97% | 0% | 3% | **97%** |
| Mae WSA yn cymryd cydraddoldeb ac amrywiaeth o ddifrif | 88% | 12% | 0% | **88%** |
| Mae WSA yn cymryd y Gymraeg o ddifrif | 75% | 22% | 3% | **75%** |

*{Ffynhonnell: Pollen Shop, Mai 2022}*

**Bydd WSA yn gwella ei ymrwymiad i'r Gymraeg. Mae ein Blaenoriaethau ar gyfer 2022-23 (Tudalen 10) yn addunedu y bydd WSA yn... Ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 drwy helpu ein haelodau i gynyddu nifer eu siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.*

# Arwain Eiriolaeth a Dylanwad

**Yn 2021 cytunodd Bwrdd WSA i wneud mân newidiadau i'n Cenhadaeth a'n Gweledigaeth er mwyn adlewyrchu ein gwaith yn well, ac i'n paratoi ar gyfer cyhoeddi ein strategaeth newydd yn haf 2022. Gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio gyda sefydliadau'r gwledydd hyn i gefnogi eu dealltwriaeth o'r setliad datganoli, mater sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil argyfwng Covid19.**

Mae ein llais yn y Senedd yn parhau i dyfu, wrth i ni wneud cyfraniadau at sawl ymchwiliad ac adroddiad. Cefnogi'r Senedd o ran craffu ar Lywodraeth Cymru a sicrhau bod llais ein haelodau yn cael ei glywed. Cawsom ein dyfynnu'n helaeth mewn adroddiad gan y Senedd ar Chwaraeon mewn cymunedau difreintiedig, effaith a gwaddol Covid ac ar effaith yr argyfwng costau byw.

Yn Senedd San Steffan rydym hefyd wedi cyfrannu i ymchwiliadau sy'n edrych ar effeithiolrwydd hybu Cymru fel cyrchfan dwristiaeth ac ymchwiliadau parhaus i wasanaethau darlledu am ddim ac effaith Covid yng ngwledydd Prydain.

Rydym hefyd wedi cefnogi ein haelodau i hwyluso eu cysylltiadau effeithiol eu hunain â sefydliadau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn, rydym hefyd wedi cynrychioli barn aelodau ar y Grwp Chwaraeon Cenedlaethol, i sicrhau bod athletwyr elît a phroffesiynol yn cael eu diogelu o dan reoliadau Covid, gan alluogi iddynt barhau i hyfforddi drwy eithriad i'r Rheoliadau.

Rydym yn gwybod y bydd 2022-2023 yn dod â heriau newydd, gyda newidiadau i fodel ariannu Chwaraeon Cymru a'r adferiad parhaus yn sgil y pandemig, a phwysau cynyddol oherwydd chwyddiant a chostau byw yn codi.

Wrth i ni agosáu at ganol tymor presennol y Llywodraeth yng Nghymru, mae angen i ni ddechrau edrych i'r pum mlynedd o 2026 hyd 2031. Byddwn yn dechrau'r broses o ddylanwadu ar faniffestos y pleidiau gwleidyddol dros y flwyddyn i ddod ac yn cefnogi ein haelodaeth i fynnu eu llais yn y broses hon hefyd.

Gall chwaraeon fod â rôl weladwy mewn trafodaethau cyhoeddus ac fe ddylai gymryd y rôl honno, a bydd WSA yn gweithio i roi llais a llwyfan i'n haelodau ddylanwadu ac eiriol yn effeithiol dros rym chwaraeon.



# Meithrin Gwytnwch

## Aelodaeth

Yn ystod 2021-2022, mae ein haelodaeth wedi tyfu ac rydym bellach yn falch o wasanaethu 142 o sefydliadau sy'n ymwneud â chwaraeon a hamdden, gyda chyfradd bositif o ran cadw aelodaeth o dros 95%.

Ers i WSA godi tâl am Aelodaeth yn 2016/2017, mae ein haelodaeth wedi cynyddu o 64 aelod i 142, sydd yn gynnydd o 122%.

Rydym wrth ein boddau ein bod wedi cynllunio atebion cost-effeithiol penodol er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd a chapasiti sefydliadol gorau posib, trwy gyfrwng cynnig aelodaeth newydd, sef Aelodaeth a Mwy. Y ddau becyn Aelodaeth a Mwy cyntaf a ddatblygwyd yw Cyllid a Mwy ac Eiriolaeth a Mwy gyda phedwar Corff Llywodraethu Cenedlaethol eisoes yn dewis manteisio ar y datblygiad newydd. Byddwn yn cynnig pum pecyn Aelodaeth a Mwy o leiaf erbyn diwedd y cylch strategol nesaf, a bydd y rhain yn cael eu nodi gan y sector, ar gyfer y sector.

Yn 2021, fe wnaethom ddadansoddiad gwariant cynhwysfawr ar drawstoriad o aelodaeth WSA. Nododd yr adroddiad ystod o arbedion posibl ar gategorïau gwariant cyffredin, a oedd yn profi'r achos dros gaffael ar y cyd. Ers hynny datblygwyd gwasanaeth caffael i'r sector chwaraeon a hamdden gyda'r arbenigwyr caffael 2buy2 o Gaerdydd.

Ffurfiolwyd ein perthynas waith gyda Community Leisure UK (CLUK), gan gytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i roi llais cryfach byth i'n holl aelodau yng Nghymru ac er mwyn helpu i adeiladu cysylltiadau hanfodol ar draws y sector.

Fe wnaethom gyflawni cam olaf contract cymorth fframwaith Arweinyddiaeth a Llywodraethu Chwaraeon Cymru (FfALI).



Ychwanegodd ein darpariaeth arloesol o ran y rhaglen werth sylweddol i'r sector, ac rydym yn gwybod i'n gwaith gael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb a fanteisiodd ar y rhaglen.

Rydym yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau Llywodraethu ar gyfer y sector, gan gynnwys ein gwasanaeth hyfforddi Cyfarwyddwyr Anweithredol pro bono i gryfhau byrddau sydd ag aelodau, yn ogystal â chymorth a hyfforddiant llywodraethu a lliniaru risg. Byddwn ni'n ceisio cyflwyno platfform llywodraethu a risg arloesol i gefnogi aelodau, a fydd yn gydnaws â fframwaith Galluogrwydd Chwaraeon Cymru yn ogystal â'r FfALI.

Mae ein cynnig hyfforddiant yn parhau i fod yn llwyddiant ysgubol a byddwn yn parhau i gyflawni i'n haelodau ar bynciau fel gwleidyddiaeth, diogelu, strwythurau cyfreithiol, cydymffurfiaeth a llywodraethu GDPR (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol). Unwaith eto rydym wedi ymrwymo i gyflawni ar gyfer anghenion ein haelodau, a bydd cyrsiau'r dyfodol yn cael eu nodi gan y sector, ar gyfer y sector.

Rydym yn gweithio gyda darparwr hyfforddiant ar-lein i ddatblygu ein cynnig hyfforddiant a DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) ymhellach i'r sector ar y cyd â CIMSPA . Mae ein gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn parhau i ffynnu gyda chynnydd o 15% yn nifer y gwiriadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae gwelliannau gwirio ID gan gynnwys gwiriadau Swyddfa'r Post a dilysu ID digidol wedi arwain at gynnydd o ran sefydliadau yn y DU sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth. Mae galluoedd dwyieithog yn parhau i fod yn bwysig i rai o'n haelodau.

*"Rydyn ni wedi cael hyfforddiant drwy St John Cymru, a gyflwynwyd gennym i'n cymuned. Mae wedi bod yn broses gyflym a didrafferth - dim ond e-bost canolog ac yna i ffwrdd â ni.*

*"Rydym hefyd yn y gorffennol wedi gwneud defnydd o bartneriaeth WSA gydag Acorn, gan ei defnyddio ar gyfer recriwtio ein bwrdd.*

*"Ac rydym yn defnyddio Gwasanaeth Gwirio Datgelu a Gwahardd WSA, sydd jyst yn hurt o syml! Mae'n gyflym iawn (mor gyflym, mewn gwirionedd, nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gallu credu'r peth!), yn rhwydd i'w ddefnyddio, ac mae'n ein galluogi i gwblhau'r broses mewn modd effeithlon iawn. Mae'n arbed amser i'n staff, ac mae'r ffaith ei fod yn system ddigidol yn golygu nad ydym yn cario unrhyw beth o gwmpas gyda ni. "*

**Helen Tan**
Cyn Brif Swyddog Gweithredol Rhwyfo Cymru



# Cyllid a Llywodraethu

**Fel yn achos llawer o'n haelodau, roedd blwyddyn ariannol 2020/21 yn heriol tu hwnt. Dioddefodd WSA ostyngiad o 27% mewn refeniw masnachol ar adeg pan oedd y galw am ein gwasanaethau ar ei uchaf.**

Roedd ein rhagolygon cynllunio senarios cychwynnol a'n rhagolygon ariannol yn rhagweld gofyniad i ddefnyddio ein cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gefnogi ein haelodau a'r sector drwy'r pandemig.


Fodd bynnag, arweiniodd y galw cynyddol am ein gwasanaethau at dwf yn ein haelodaeth, gan gynyddu ein hincwm aelodaeth 36%. Galluogodd y cynnydd hwn, ynghyd â chyllid gwytnwch ychwanegol gan Lywodraeth Cymru/Chwaraeon Cymru, i ni ddisodli'n refeniw masnachol coll a darparu cyllid ychwanegol er mwyn ychwanegu gwasanaethau pellach i'n haelodau.

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roeddem yn gallu cofnodi gwarged bach a helpodd i adfer yn rhannol golled y flwyddyn ariannol flaenorol. Dioddefodd ein his-gwmni masnachu Vibrant Nation yn andwyol hefyd yn sgil y pandemig gyda gostyngiad o 13% mewn refeniw Datgelu a Gwahardd er bod costau Datgelu a Gwahardd hefyd wedi eu gostwng, gan beri cynnydd bach yn ein cronfeydd wrth gefn.

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn parhau i fod yn un heriol ac rydym yn parhau'n ddiolchgar i'n haelodau ac i Chwaraeon Cymru am eu cefnogaeth barhaus a gwerthfawr. Bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar adfer a pharhau i arallgyfeirio ffrydiau incwm i gryfhau ein gwytnwch a sicrhau bod buddsoddiad yn ein gwasanaethau sy'n ehangu'n barhaus yn parhau i dyfu.



## Mae modd gweld ein cyfrifon blynyddol ar gyfer WSA a Vibrant Nation



| | 2021/22 | % |
|---|---|---|
| Grantiau | 187,958 | 36% |
| Incwm Datgelu a Gwahardd | 131,450 | 25% |
| Ffi Rheoli FfALl | 67,440 | 13% |
| Incwm Aelodaeth | 47,270 | 9% |
| Ffi Rheoli VN | 36,000 | 7% |
| Incwm Masnachol | 50,519 | 8% |
| Incwm Amrywiol | 4,556 | 1% |
| Kick Start Masnachol | 3,450 | 1% |
| Cyfanswm Incwm | 528,643 | 100% |



# Blaenoriaethau 2022-2023

## Gydol pandemig COVID-19, roedd ein ystwythder i ymateb i'r argyfwng wedi bod yn gymorth i'n haelodau i amddiffyn eu pobl a sicrhau bod gweithgarwch, lle bynnag y bo modd, wedi gallu parhau neu ailddechrau pan oedd rheoliadau'n caniatáu hynny.

Mae ein Sector bellach yn wynebu heriau economaidd ychwanegol ac arwyddocaol gyda'r argyfwng costau byw. Bydd chwyddiant cynyddol a chynnydd sylweddol yn y cap ar brisiau ynni ynghyd â gostyngiad yn incwm gwario aelodau a chwsmeriaid yn effeithio ar ein holl aelodau a ninnau.

Rydym am wneud y gorau o'n hystwythder yn y flwyddyn i ddod i roi ein hunain a'n haelodau ar seiliau cadarn ar gyfer cam nesaf yn y broses adfer ac adnewyddu.

### ARWAIN EIRIOLAETH

Bod yn llais annibynnol dros chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i fod yn arweinydd dibynadwy yn y sector, gan roi un llais i'n haelodau:

- Helpu ein haelodau i fynd i'r afael ar y cyd â'r problemau sy'n ein hwynebu fel sector, gan gynnwys ein hymrwymiadau ar y cyd i;
  - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
  - Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd
  - Ymateb i'r argyfwng costau byw a'r cynnydd ym mhrisiau ynni.

- Cyfrannu at a chwarae rhan ganolog yn y drafodaeth yn y Senedd ar ddyfodol chwaraeon Cymru

### MEITHRIN GWYTNWCH

Parhau i adeiladu brand a gwasanaethau WSA a Vibrant Nation, gan ail-fuddsoddi unrhyw warged yn ôl i'r gwasanaethau a gynigir i aelodau WSA:

- Ehangu'r ystod o wasanaethau a rennir sydd ar gael drwy bartneriaethau proffesiynol sy'n gallu dangos lefelau gwasanaeth gwell ac arbedion effeithlonrwydd.
- Lansio ein platfform hyfforddi ar-lein newydd, gwell ac estynedig.
- Bydd ein porth caffael yn sicrhau arbedion mesuradwy i'n haelodau eleni, a hwn fydd y ffigur gwaelodlin ar gyfer arbedion cynyddol o flwyddyn i flwyddyn.
- Byddwn ni'n darparu Llwyfan Llywodraethu a Risg ar-lein i gefnogi arferion gorau'r sector a fydd yn cyd-fynd â Fframwaith Galluogrwydd Chwaraeon Cymru a'r FfALI
- Byddwn yn darparu tri chynnig aelodaeth a mwy, gan gynnig gwasanaethau a chyfleoedd newydd i'n holl aelodau.
- Byddwn yn dod yn fwy gwydn yn ariannol, gan ddenu buddsoddiad cyhoeddus i sicrhau'r adenillion mwyaf i'n sector.
- Ein nod yw bod 'y lle awdurdodol' ar gyfer recriwtio o fewn ein sector, gan alluogi ein haelodau i ddenu'r talent gorau, a fydd yn cyfrannu at weithlu sy'n perfformio'n dda.
- Ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 drwy helpu ein haelodau i gynyddu nifer eu siaradwyr Cymraeg a'r defnydd ar y Gymraeg. Ehangu'r ystod o wasanaethau a rennir sydd ar gael drwy bartneriaethau proffesiynol sy'n gallu dangos lefelau gwasanaeth gwell ac arbedion effeithlonrwydd.
- Lansio ein platfform hyfforddi ar-lein newydd, gwell ac estynedig.
- Bydd ein porth caffael yn sicrhau arbedion mesuradwy i'n haelodau eleni, a hwn fydd y ffigur gwaelodlin ar gyfer arbedion cynyddol o flwyddyn i flwyddyn.
- Byddwn ni'n darparu Llwyfan Llywodraethu a Risg ar-lein i gefnogi arferion gorau'r sector a fydd yn cyd-fynd â Fframwaith Galluogrwydd Chwaraeon Cymru a'r FfALI
- Byddwn yn darparu tri chynnig aelodaeth a mwy, gan gynnig gwasanaethau a chyfleoedd newydd i'n holl aelodau.
- Byddwn yn dod yn fwy gwydn yn ariannol, gan ddenu buddsoddiad cyhoeddus i sicrhau'r adenillion mwyaf i'n sector.
- Ein nod yw bod 'y lle awdurdodol' ar gyfer recriwtio o fewn ein sector, gan alluogi ein haelodau i ddenu'r talent gorau, a fydd yn cyfrannu at weithlu sy'n perfformio'n dda.
- Ymateb i strategaeth Cymraeg 2050 drwy helpu ein haelodau i gynyddu nifer eu siaradwyr Cymraeg a'r defnydd ar y Gymraeg.

### • SEFYDLIAD CHWARAEON CYMRU:

Byddwn ni'n denu arian sbarduno i Sefydliad Chwaraeon Cymru, gan alluogi'r Elusen i gychwyn arni, er mwyn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol.

### • GWOBRAU DIWYDIANT CHWARAEON A HAMDDEN WSA:

Byddwn yn cydnabod ac yn hyrwyddo mentrau a llwyddiannau aelodau WSA, tra hefyd yn cyfleu modelau a strategaethau arferion gorau, sy'n helpu i gadw sector Chwaraeon a Hamdden Cymru i symud ymlaen y tu mewn a'r tu allan i'r arena chwaraeon.

***"Mae wedi bod yn bleser mawr cwrdd â nifer o'n haelodau ers i mi ymuno â WSA fis Awst. Mae ein cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn amhrisiadwy a bydd hyn yn parhau yn 2023 wrth i'n sector wynebu heriau newydd. Gallaf ymrwymo i'n haelodau ein bod yma yn ystod y cyfnod heriol hwn, i'ch cefnogi gydag eiriolaeth a gwasanaethau a rennir o'r radd flaenaf – gyda'n gilydd gallwn fod yn sector gwydn yng Nghymru.***

***Mae chwaraeon ar gyfer pawb a bydd ein hamcan i lansio Sefydliad Chwaraeon Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod yn cyfrannu at Gymru iachach a mwy cyfartal. Ac yn olaf, rydym yn cydnabod o'n harolwg annibynnol y gallwn wneud yn well o ran ein hymrwymiad i'r Gymraeg. Ac fe fyddwn ni. Mae'n flaenoriaeth i ni dros y deuddeng mis nesaf i ddechrau creu diwylliant Cymraeg ffyniannus ledled y sector chwaraeon. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhyddhau i aelodau yn fuan. Rydym yn diolch am eich cefnogaeth ac edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda chi a helpu mewn unrhyw ffordd y gallwn."***

**Andrew Howard**
Prif Swyddog Gweithredol

# Watkin Davies Adnewyddu

## Mae'n hynod gyffrous i ni allu cyhoeddi adnewyddiad ein cytundeb partneriaeth gyda'r ymgynghorwyr yswiriant Watkin Davies. Ar ôl bod yn cydweithio eisoes ers tair blynedd, bydd cytundeb newydd WSA gyda Watkin Davies yn gweld y bartneriaeth yn cael ei hymestyn yr holl ffordd hyd at fis Mawrth 2027!

Gyda chefnogaeth rhwydwaith o Yswirwyr arbenigol sy'n darparu atebion pwrpasol a chost-effeithiol, mae Watkin Davies yn darparu yswiriant ar gyfer Clybiau Amatur a Phroffesiynol, Hyfforddwyr, Digwyddiadau, Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol, Ymddiriedolaethau Hamdden a Chyfleusterau Hyfforddi Cenedlaethol.

Mae'r tair blynedd diwethaf eisoes wedi esgor ar lawer o uchafbwyntiau…

***"Y peth gorau wnaethon ni oedd symud ein harian i gwmni o Gymru oedd yn deall yr heriau sy'n ein hwynebu, nid yn unig fel busnes ond fel gwlad. Ac rwy jest eisiau diolch o galon am eich holl gefnogaeth a gwybodaeth."***

**Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen yn sôn am Watkin Davies**

A'u gwasanaethau a gyrchwyd drwy gyfrwng partneriaeth WSA.

Mae aelodau WSA wedi gallu elwa ar Equipsme, cynllun iechyd a lles Watkin Davies ei hunain ar gyfer busnesau. Mae eu cynllun ymarferol, syml, a chost-effeithiol yn dileu'r gost a'r cymhlethdod a gysylltir â buddion iechyd mwy traddodiadol ac yn ei gwneud hi'n bosibl mabwysiadu cynllun o'r fath.

Watkin Davies yw'r brocer cofrestredig sydd wedi caniatáu i aelodau WSA gael mynediad i Gronfa Chwaraeon Allianz, a roddodd gyllid grant i glybiau chwaraeon ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2021 a Mehefin 2022, ac y bydd yn gwneud unwaith yn rhagor yn ddiweddarach eleni.

Mae'r aelodau wedi gallu elwa o borth yswiriant hyfforddwyr ar-lein, a gynhyrchwyd mewn partneriaeth rhwng WSA, Watkin Davies a Sportscover Europe. Wedi'i greu'n benodol ar gyfer hyfforddwyr ledled Cymru, datblygwyd y cynnyrch yswiriant unigryw drwy ddeall beth yn union sydd ei angen ar hyfforddwyr o ran eu hyswiriant a chafodd ei gynllunio i adlewyrchu hyn.

Wrth i bandemig COVID-19 ddod â risgiau newydd i'r golwg, rhoddodd Watkin Davies arweiniad ar lu o faterion yr effeithiwyd arnynt gan ddwy flynedd na welwyd eu tebyg o'r blaen; roedd y rhain yn cynnwys adolygu amodau polisi, cymalau a hawliadau Tarfu ar Fusnes, amlygu risgiau atebolrwydd Cyfarwyddwyr a Swyddogion, amlygu risgiau atebolrwydd Cyffredinol ac i Gyflogwyr, a chanllawiau Rheoli Risg ar gyfer dychwelyd safleoedd nôl i'r arfer.

***"Fel Brocer Yswiriant yng Nghymru, gwnaeth partneriaeth gyda Chymdeithas Chwaraeon Cymru synnwyr perffaith ac rydyn ni wrth ein bodd gyda'r llwyddiant rydyn ni wedi'i gael ers sefydlu ein partneriaeth. Mae'r bartneriaeth wedi rhoi llwyfan i ni gefnogi sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt, gydag Yswiriant ac atebion rheoli risg, gan adeiladu ar gefn yr enw da eithriadol sydd gan WSA eisoes.***

***Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw am y blynyddoedd i ddod a pharhau i ddatblygu mentrau i gefnogi eu haelodau, yn dilyn adnewyddiad tymor hir ein cytundeb yn ddiweddar."***

**Watkin Davies**

watkin davies
insurance consultants
part of the A-plan Group

# Adnewyddiad Sportscover Europe

Mae'n hynod gyffrous i ni allu cyhoeddi adnewyddiad ein cytundeb partneriaeth gyda'r yswirwyr Sportscover Europe. Mae Sportscover Europe bellach wedi bod yn bartneriaid i WSA ers chwe blynedd, ac yn y cyfnod hwnnw wedi cefnogi sefydliadau sy'n aelodau, a'u cyfleusterau, yn ogystal â hyfforddwyr a hynny gydag ystod lawn o opsiynau yswiriant.

Maent hefyd wedi bod yn rhan amhrisiadwy o gefnogaeth WSA gydol pandemig COVID-19, pan oeddent yn gallu cynnig eu harbenigedd a'u dealltwriaeth tra'n cynnig arweiniad yn ystod cyfnod hynod heriol i'n holl aelodau.

SPORTSCOVER
EUROPE

***"Rydym yn falch iawn o adnewyddu ein partneriaeth gyda WSA am 5 mlynedd arall.***

***"Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'r sector chwaraeon a hamdden yng Nghymru. Rydym wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â thîm WSA i ddarparu ystod o wasanaethau i'n haelodau, gan gynnwys cymorth rheoli risgiau a'r porth hyfforddwyr chwaraeon yn ogystal â'n busnes craidd o yswirio.***

***"Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r tîm yn WSA, a'u rhestr gynyddol o aelodau, dros y blynyddoedd nesaf."***

**Sportscover Europe CEO**
Martin Crannis

# Diolch

**Hoffem ddiolch o waelod calon i'n holl bartneriaid gwerthfawr, am eu cefnogaeth dros y flwyddyn, gan ein galluogi i ddarparu gwerth ychwanegol a gwella effeithlonrwydd i'n Haelodau.**

SPORTSCOVER EUROPE | watkin davies insurance consultants part of the A-plan Group | CROFT COMMUNICATIONS
LOOSEMORES SOLICITORS | Acorn | sport:80
joymo | enterprise | Cal Risk
St John Ambulance Cymru | 2buy2 | JustSolutions


Welsh Sports Association
c/o National Centre
Sophia Gardens
Cardiff
CF11 9SW

**wsa.wales**
029 2033 4972
admin@wsa.wales


wsa
Welsh Sports Association
Cymdeithas Chwaraeon Cymru